## Datganiad gan Amgueddfa Cymru: Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Amgueddfa Cymru 2021/22 – Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol

Mae'r materion sy'n codi yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn ymwneud â digwyddiadau digynsail yn ystod cyfnod eithriadol o heriol i'r Amgueddfa.

Er bod yr Archwilydd Cyffredinol yn fodlon â systemau, rheolaethau a pherfformiad ariannol Amgueddfa Cymru, rydyn ni'n cydnabod fod adroddiad Archwilio Cymru yn cynnwys barn amodol ar reoleidd-dra ar gyfer blwyddyn gyfrifo 2021/22. Mae hyn oherwydd dau fater:

Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r penderfyniad i ymgymryd â phroses gyfryngu/negodi gyda'r cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol, dirprwyo'r cyfrifoldeb dros gymeradwyo'r trefniant setliad i ddau ymddiriedolwr, a gosod telerau'r dirprwyo.

Yn ail, roedd pryderon ynghylch llywodraethu a nodwyd yn adroddiad Archwilio Cymru ar gyfer 2020/21 wedi parhau yn ystod 2021/22, er i'r archwilydd nodi fod y trefniadau hyn wedi gwella yn ail hanner 2021/22.

Oherwydd natur gyfrinachol cytundebau cyfreithiol cysylltiedig, ni allwn wneud sylw ar unrhyw fater sy'n ymwneud ag unrhyw aelod o staff neu gynrychiolydd Amgueddfa Cymru, presennol neu flaenorol.

Gall Amgueddfa Cymru gadarnhau ei bod wedi gweithredu yn ôl canllawiau cyfreithiol bob amser, a'i bod hefyd – ar y cyd â Llywodraeth Cymru – wedi ystyried pob opsiwn posibl er lles Amgueddfa Cymru.

Mae'r Amgueddfa wedi dysgu nifer o wersi o'r cyfnod anodd hwn, ac mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi adolygu a moderneiddio ei threfniadau llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys:

- Mabwysiadu polisi cwynion newydd ar gyfer staff uwch.
- Mesurau datrys anghydfod newydd wedi'u drafftio, ac yn cael eu trafod â'r undebau llafur ar hyn o bryd.
- Telerau ac amodau'r prif weithredwr newydd wedi'u hadolygu i gynnwys trefniadau llywodraethu tynnach.
- Adolygiad o brosesau a gweithdrefnau llywodraethu ar y gweill, dan arweiniad y Cadeirydd.

Digwyddodd y materion hyn pan oedd adolygiad wedi'i deilwra, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cael ei gynnal. Mae'r adolygiad hwnnw wedi nodi argymhellion a fydd yn cryfhau prosesau Amgueddfa Cymru. Mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i weithredu'r argymhellion hyn, ac rydyn ni'n falch o weld Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli yn y grŵp.

Dan arweinyddiaeth ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr newydd, rydyn ni'n bwriadu symud ymlaen er mwyn canolbwyntio ar gynnig profiadau ysbrydoledig, cynhwysol ac effeithiol yn ein hamgueddfeydd i holl bobl Cymru.

***DIWEDD***